


# Rhaglen Hwb 3.0 URC

## Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion 2022 - 2027

# Cyflwyniad

Pwrpas Undeb Rygbi Cymru ("URC"), fel y nodir yn ein strategaeth, yw i fwy o bobl gymryd rhan mewn rygbi, yn fwy aml, gyda mwy o fwynhad a mwy o lwyddiant.

Ers 2014, mae URC wedi darparu arian cyfatebol i gefnogi rhwydwaith o Swyddogion Hwb sy'n gweithio i ysgolion a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, i ddatblygu rygbi. Prif ddiben y rhaglen yw ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gweithgareddau rygbi, drwy eu lleoliadau addysgol, gyda'r bwriad o'u hannog i fwrw ymlaen â'u diddordeb yn y gêm yn un o fwy na 180 o glybiau rygbi cymunedol sydd wedi'u cysylltu â'r hybiau

Yn dilyn adolygiad annibynnol, fe wnaeth URC ailddatgan ei weledigaeth, ei nodau a'i amcanion ar gyfer y Rhaglen Hwb am y 3 blynedd, wedi'u cyfochri â Strategaeth Gyfranogiad URC o 2018-2021. Yn 2020/21 cynhaliodd URC adolygiad mewnol o'r rhaglen i sicrhau ei bod yn parhau i gyflawni o gymharu â'i huchelgeisiau a'n Strategaeth Gêm Gymunedol Newydd

# Canlyniadau'r Adolygiad

Canlyniadau'r broses adolygu

- Cysylltu'r holl amcanion â strategaeth a gweledigaeth rygbi URC
- Cydweithio â phartneriaid i helpu i greu amcanion clir ar gyfer y rhaglen ar draws addysg a chymuned
- Caniatáu amcanion hyblyg ar gyfer yr holl wahanol fathau o fodelau hwb / sefydliadau / pobl / partneriaid
- Amcanion i'w cytuno / eu cyflawni / eu monitro gyda rhanddeiliaid allweddol
- Sicrhau bod pob un o nodau ac amcanion y rhaglen yn cael eu mesur yn effeithiol (cyn / yn ystod / ar ôl)

# Egwyddorion Rhaglen Hwb 3.0

Mae'r rhaglen hwb yn offeryn i URC gyflawni'r cynllun gweithredol rhanbarthol. Gofynnwyd i dimau rhanbarthol flaenoriaethu sefydliadau yn seiliedig ar anghenion yr ardal a nodau'r strategaeth.

Bydd telerau'r cytundebau yn cyfateb i'r cylch strategol newydd – **hyd at 5 mlynedd**.

Oherwydd y gyllideb a gaiff ei neilltuo, ni fydd cynnydd yn y swm a ddyrannwn i'r sefydliadau a bydd hyd at **uchafswm o £10,000 y flwyddyn**.

Mae'r holl flaenoriaethau strategol yn cael eu pwysoli yn gyfartal ar draws amcanion Rhaglen Hwb URC. Fodd bynnag, mae angen i ni ad-drefnu uchafswm nifer yr amcanion ar gyfer pob sefydliad, fel nad ydym yn rhoi gormod o bwysau gwaith i'r swyddog.

Bydd disgrifiadau swydd swyddogion yn hyblyg **80:20 – 80% o'r gwaith yn cyflawni Amcanion y Rhaglen Hwb: 20% yr amcanion penodol** sy'n ofynnol gan y sefydliad.

Bydd amcanion ar gyfer sefydliadau unigol yn cael eu newid yn dibynnu ar y math o sefydliad ac ardal.

**Craidd** – Y rhai sy'n allweddol i'r busnes

**Craidd Amrywiol** – Y rhai sy'n newid yn dibynnu ar y math o sefydliad a model

**Penodol** – Maes effaith yn seiliedig ar y swyddog, yr ardal a'r model

# Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion Hwb 3

## Gweledigaeth

Galluogi Rygbi Cymru i Ffynnu

## Cenhadaeth

Cysylltu a chydweithio â sefydliadau allweddol i ddatblygu llwybr cynhwysol ac amrywiol.

Er mwyn creu pobl ifanc uchelgeisiol, mentrus, moesegol ac iach yn unol a phedwar diben Cwricwlwm i Gymru.

## Amcanion

Bydd sefydliadau unigol yn cael eu targedu ag amcanion y cytunwyd arnynt ar draws Strategaeth Rygbi URC.

# Amcanion

## Pobl

Bydd Rhaglen Hwb URC yn darparu'r hyfforddiant a'r offer wedi'u targedu a fydd yn galluogi pawb sy'n cymryd rhan mewn rygbi i fod y gorau y gallant fod.

Hyfforddwyr, dyfarnwyr a gwirfoddolwyr yn datblygu ac yn cael eu defnyddio yn y gymuned ochr yn ochr â hyfforddwyr clwb

## Lleoliadau

Bydd Rhaglen Hwb URC yn nodi'r lleoliadau addysgol, clybiau URC a chymunedau lleol hynny lle mae budd pendant i'w ennill o ddatblygu rygbi

Ymgysylltiad Clybiau, yr Hwb i Ferched a Menywod a thimau Cynhwysol drwy recriwtio chwaraewyr, hyfforddwyr, dyfarnwyr a gwirfoddolwyr ar gyfer grwpiau oedran penodol

## Chwarae

Mae Rhaglen Hwb URC yn hanfodol i dyfu a datblygu'r gêm mewn cymunedau yng Nghymru fel bod unigolion yn cyflawni eu potensial

Twf cyfleoedd chwarae cwricwlaidd/allgyrsiol cynhwysol, darpariaeth ysgolion cynradd a chymorth llwybr chwaraewyr

## Hybu

Bydd Rhaglen Hwb URC yn cynnig profiad cynhwysol i'n holl bobl a'n cymunedau

Cyflwyno AAA yn y gymuned a chefnogi digwyddiadau, cofrestru ar gyfer yr ystafell ddosbarth ddigidol a darpariaeth gwyliau wedi'i thargedu.

## Partneriaid

Rhaglen Hwb URC i gysylltu a chefnogi partneriaid strategol allweddol eraill i helpu i dyfu ein holl flaenoriaethau strategol a chynyddu cyfleoedd ar gyfer rygbi ledled Cymru.

# Sefydliadau Hwb

Nodir y sefydliadau canlynol fel sefydliadau posibl yn Rhaglen Hwb URC

**Ysgolion Uwchradd** – Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau yn y rhaglen (60%) yn ysgolion uwchradd penodol sy'n gysylltiedig â Chlybiau URC, Hybiau Merched a Menywod a thimau Cynhwysol. Drwy waith wedi'i dargedu gan y swyddog, gallant gysylltu ag anghenion lleol yr ardal er mwyn galluogi Rygbi Cymru i Ffynnu.

**Colegau a Phrifysgolion** – Mae Colegau a Phrifysgolion yn 15% o'r tirlun presennol sy'n rhoi cyfle i ddefnyddio gwirfoddolwyr yn y gymuned mewn modd sydd wedi'i dargedu ond hefyd yn gyfle i ymgysylltu â chyfranogwyr wrth iddynt bontio i rygbi oedolion.

**Ysgolion ADY/AAA** – Y nod yw cael 100% o ysgolion AAA yn cymryd rhan drwy raglen Hwb URC a'r Ystafell Ddosbarth Ddigidol. Gall y rhain fod trwy'r holl swyddogion fel rhan o'u hymgysylltiad cymunedol ehangach neu drwy gytundebau wedi'u targedu gyda Sefydliadau AAA penodol.

Mae **partneriaid** fel Sefydliadau Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol, Elusennau a Sefydliadau'r 3ydd Sector yn rhoi cyfle i ni dargedu meysydd, canlyniadau neu amcanion penodol ar gyfer y rhaglen.

# Ail-lunio Sefydliadau Hwb

## Mae'r prif dargedau i gyflawni ei nodau a'i hamcanion fel a ganlyn (yn seiliedig ar ddarparu 100 o sefydliadau erbyn mis Awst 2022);

- O leiaf 10 sefydliad / swyddog arweiniol ADY / AAA yn genedlaethol
- O leiaf 10 cymuned economaidd-gymdeithasol isel wedi'u targedu ar gyfer ymchwil y Brifysgol Agored
- O leiaf 10 mewn ardaloedd lle mae rygbi wedi'i dargedu at gefnogi datblygiad cymunedol eang (Mwy na Rygbi)
- 100% o hybiau i ferched a menywod yn cael eu cefnogi gan y Swyddogion Hwb
- Pob Awdurdod Lleol yn cael eu cefnogi gan o leiaf 2 Sefydliad Hwb
- Pob Ardal Tarian Dewar â sylfaen o 2 Sefydliad Hwb o leiaf
- Sefydliadau wedi'u targedu yn cysylltu â meysydd twf (galw cudd) a chynnal a chadw clybiau URC

## Llwyddiant rhaglen Hwb URC fydd:

- Nifer cynyddol o sefydliadau yn rhan o'r rhaglen dros y 3 i 5 mlynedd nesaf
- Cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan ac yn cael eu cadw drwy gydol y rhaglen
- Astudiaethau Achos sy'n dangos gallu'r rhaglen i gyflawni mewn gwahanol gymunedau yng Nghymru drwy wahanol bartneriaid
- Bydd y Brifysgol Agored yn ymgysylltu ochr yn ochr â phartneriaid eraill i fesur effaith y rhaglen ar unigolion

**Mae'r Disgrifiad Swydd sydd ynghlwm yn dangos enghraifft o raglen waith y Swyddogion Hwb mewn Ysgolion Uwchradd. Gall Disgrifiadau Swydd yn eu sefydliadau amrywio yn dibynnu y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y swydd.**



# SWYDD DDISGRIFIAD

## SWYDD DDISGRIFIAD (SWYDDOG YSGOLION UWCHRADD)

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Swyddog Hwb |
| **Cyflog** | I'w gadarnhau – band a argymhellir £18-23,000 y flwyddyn |
| **Lleoliad** | Yn y sefydliad am uchafswm o 25 awr yr wythnos. Yn y gymuned, y clwb/hwb i ferched a menywod a lleoliadau eraill am o leiaf 10 awr yr wythnos (fel y bo'n briodol i'r swydd). |
| **Oriau Gwaith** | Llawn amser (NID PRO RATA), o leiaf 35 awr yr wythnos, ond gall natur y swydd olygu gweithio mwy na hyn, gan gynnwys nosweithiau, penwythnosau a Gwyliau Cyhoeddus. |
| **Statws Contract** | Cyfnod penodol, y cytunwyd arno gan y sefydliad fel cyflogwr |
| **Yn atebol i** | Rheolwr Llinell drwy'r Sefydliad ac URC |
| **Perthnasoedd Allweddol** | Rheolwyr y sefydliad e.e. Pennaeth, Pennaeth Addysg Gorfforol (neu gyfatebol)<br>Rheolwr Rhaglen Hwb Cenedlaethol URC<br>Staff Adran Rygbi URC yn unol a chyfarwyddyd Rheolwr Rhanbarthol URC<br>Clybiau URC, yr Hybiau i Ferched a Menywod a thimau Cynhwysol<br>Sefydliadau Addysgol<br>Ysgolion Cynradd/Uwchradd Lleol – Unedau AAA<br>Rhanddeiliaid cymunedol, fel y bo'n briodol<br>Partneriaid Lleol -DSW/Urdd/Streetgames/Sefydliadau Cymunedol Rhanbarthol<br>Timau cynrychioliadol (Dewar Shield) a Chynrychiolwyr rhanbarthol |
| **Crynodeb o'r swydd:** | Swyddogaeth y Swyddog Hwb yw<br>Galluogi Rygbi Cymru i Ffynnu a datblygu<br>unigolion drwy gyflwyno rygbi'r undeb o fewn y sefydliad a'r gymuned leol;<br><br>Bydd yn ofynnol i'r Swyddog Hwb alluogi Rygbi Cymru i ffynnu drwy weithgareddau sy'n cynnwys cyfranogwyr o bob gallu o fewn rhaglen rygbi sy'n gwbl gynhwysol.<br>Gan gynnwys datblygu unigolion fel hyfforddwyr, dyfarnwyr, gweinyddwyr a gwirfoddolwyr, yn ogystal â chyfranogwyr (waeth beth fo'u gallu a'u rhywedd) gyda chysylltiadau sefydledig â'r holl randdeiliaid addysg, URC a Chymunedol. |
| **Prif Gyfrifoldebau:** | Drwy rygbi bydd y Swyddog Hwb yn cyfrannu at amcanion lleoliadau addysgol sy'n ymwneud a phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru newydd.<br><br>Y pedwar diben yw y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn:<br><br>Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau.<br>Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.<br>Dinasyddion moesegol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru ac yn y byd.<br>Unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau sy'n rhoi boddhad iddynt fel aelodau o gymdeithas sy'n cael eu gwerthfawrogi. |

# DISGRIFYDDION SWYDD

| | |
|---|---|
| **Amcanion** | • Cyflawnir yr amcanion drwy Strategaeth Undeb Rygbi Cymru |
| **Lleoedd** | • Creu rhaglen waith sy'n cefnogi datblygiad rygbi yn y cymunedau hyn - cymunedau mewnol ac allanol |
| **Partneriaid** | • Bydd Swyddog Hwb URC yn cysylltu ac yn cefnogi partneriaid strategol allweddol eraill i helpu i dyfu ein holl flaenoriaethau a chynyddu cyfleoedd ar gyfer rygbi ledled Cymru.<br>• Heb gyfyngiad, cyflawni'r holl ddyletswyddau eraill o'r fath, a gwneud pob peth arall o'r fath, y gellid eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cyflawni amcanion Rhaglen Hwb URC fel y cytunwyd gyda'r lleoliad Addysgol |
| **Hybu** | • Bydd Swyddog Hwb URC yn darparu cynnig ar gyfer ein holl bobl a chymunedauProvide targeted holiday provision at Local Rugby Clubs<br>• Darparu darpariaeth gwyliau wedi'i thargedu mewn Clybiau Rygbi Lleol<br>• Hyrwyddo Ystafell Ddosbarth Ddigidol URC i bob sefydliad addysgol yn y gymuned leol<br>• Ysgogi darpariaeth rygbi AAA yng Nghymru drwy gyflwyno sesiynau AAA a chefnogi digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol |
| **Pobl** | • Bydd Swyddog Hwb URC yn darparu'r hyfforddiant a dulliau wedi'u targedu a fydd yn galluogi pawb sy'n ymwneud a rygbi i fod y gorau y gallant fod.<br>• Cefnogi amgylchedd cwbl gynhwysol i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn rygbi, gan gynnwys ac yn enwedig drwy addysg a datblygiad hyfforddwyr, dyfarnwyr a gwirfoddolwyr.<br>• Cefnogi'r gwaith o drefnu a chyflwyno unrhyw Gyrsiau URC, Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Arweinwyr Rygbi yn y gymuned.<br>• Defnyddio pobl ifanc a gwirfoddolwyr yn y gymuned leol i gefnogi datblygiad rygbi gan gynnwys Arweinwyr Rygbi a rhaglen brentisiaeth URC. |
| **Chwarae** | • Bydd Swyddog Hwb URC yn cyflwyno rhaglen gwbl gynhwysol i dyfu, datblygu a chynnal y gêm.<br>• Darparu, neu gefnogi'r gwaith o ddarparu, Chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy gyfrwng Rygbi'r Undeb i bawb sy'n cymryd rhan, waeth beth fo'u rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, gallu, hil/crefydd neu gefndir economaidd-gymdeithasol.<br>• Cefnogi a datblygu Llwybr Talent Rhanbarthol URC ar gyfer Chwaraewyr a Hyfforddwyr yng Nghymru.. |
| **Gweinyddiaeth** | • Mynychu neu gael mynediad drwy sesiynau hyfforddi Game Locker URC, sesiynau hyfforddi URC, cyrsiau a hyfforddiant penodol i gynhwysiant ac ati, yn ôl y gofyn, gyda'r bwriad o ddilyn rhaglen bersonol o ddatblygiad proffesiynol parhaus<br>• Datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredol sy'n benodol i ardal sy'n cefnogi'r cynllun gweithredu rhanbarthol a ysgogir gan Adran Rygbi URC.<br>• Casglu a chynnal data o'r fath a allai fod yn ofynnol ar gyfer monitro effeithiolrwydd rhaglen Hwb URC ac adrodd hyn i URC, y sefydliad a lleoliadau addysgol yn ôl y gofyn<br>• Cyfrannu at ddatblygu a chynnal amgylchedd gwaith diogel a chynhwysol ym mhob man gwaith, gan gynnwys drwy gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, diogelu, cyfrinachedd, cyfryngau cymdeithasol a diogelu data (yn unol â gofynion URC a'r Sefydliad) |


WRU
DIOLCH